Yr Arolygiaeth Gynllunio

Apeliadau o dan Adran 71 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn erbyn cyflwyno hysbysiadau adfer a phenderfyniadau eraill gan Gyngor mewn perthynas â Gwrychoedd Uchel

Canllaw i Apelyddion

Cynnwys:

1.	Cyflwyniad
2.	A oes gennyf yr hawl i wneud apêl?
3.	Sut a phryd y byddaf yn gwneud apêl?
4.	Pwy sy'n cymryd rhan?
5.	Beth fydd y gost?
6.	Sut y prosesir fy apêl?
7.	Beth sy'n digwydd pan dderbynnir fy apêl?
8.	Beth sy'n digwydd os bydd mwy nag un parti yn apelio yn erbyn yr un penderfyniad gan awdurdod lleol?
9.	Beth fydd yn digwydd os penderfynaf dynnu fy apêl yn ôl?
10.	Pwy fydd yn mynychu'r ymweliad â'r safle?
11.	Pwy gaiff eu hysbysu am y penderfyniad?
12.	Y penderfyniad
13.	Sut rwyf yn cwyno os na fyddaf yn fodlon ar y ffordd yr ymdriniwyd â'm hapêl?
14.	Sut y gallaf herio'r penderfyniad?
15.	Yr Arolygiaeth Gynllunio – pwy ydynt a beth maent yn ei wneud.
16.	Diogelu data a phreifatrwydd

1. Cyflwyniad

Mae rhan wyth Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (sef “y Ddeddf” fel arall) yn rhoi’r pwer i Gynghorau wneud penderfyniadau a chyhoeddi gorchmynion adfer ac ymdrin â chwynion am wrychoedd uchel sy’n cael effaith andwyol ar allu cymydog i fwynhau ei eiddo ef neu ei heiddo hi.

Mae Adran 71 o’r Ddeddf yn rhoi hawl i bobl sy’n anfodlon ar benderfyniad gan y Cyngor apelio i’r Cynulliad Cenedlaethol. Mae’r Ddeddf ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus mwy o faint. Yn ogystal, gallwch ei gweld yn:
http://www.legislation.hmso.gov.uk

Gellir gwneud apeliadau os caiff hysbysiad adfer ei gyhoeddi, os caiff y cyfryw hysbysiad ei dynnu yn ôl, neu os caiff gofynion hysbysiad o’r fath eu llacio neu eu hepgor. Yn ogystal, mae rhai amgylchiadau lle gall achwynydd gwyno os yw’r Cyngor wedi gwneud penderfyniad heblaw am un sydd o’i blaid ef neu o’i phlaid hi.

Caiff unrhyw apeliadau a wneir eu penderfynu gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae’r canllawiau hyn yn esbonio’r weithdrefn ar gyfer apelio. Roedd y wybodaeth a gynhwysir ynddynt yn gywir ar adeg eu cyhoeddi, ond nid oes iddynt unrhyw statws cyfreithiol.

2. A oes gennyf yr hawl i wneud apêl?

Dim ond yn erbyn penderfyniad neu hysbysiad adfer a gyhoeddwyd gan gyngor mewn ymateb i gwyn ffurfiol ynglyn â'r gwrych uchel hwnnw y gellir gwneud apêl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gallwch wneud apêl os mai chi yw'r person a gwynodd i'r cyngor yn y lle cyntaf, neu os mai chi yw perchennog neu ddeiliad y tir lle y mae'r gwrych.

Mae'n bosibl y gall parti mewn apêl newid pan fo'r apêl yn cael ei phrosesu (er enghraifft, gall perchenogaeth y gwrych newid os caiff yr eiddo ei werthu). Yn yr achos hwn gall yr apêl fynd rhagddi yn enw'r perchennog newydd. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn sicrhau y gall unrhyw barti newydd weld papurau'r apêl ac y rhoddir cyfle iddynt roi sylwadau os byddant yn dymuno gwneud hynny.

Gallwch apelio yn erbyn penderfyniad Cyngor i gyhoeddi hysbysiad adfer, sy'n ei gwneud yn ofynnol i faint gwrych gael ei leihau, os mai: **–**

Chi yw'r person a gwynodd i'r Cyngor ynglyn â'r gwrych; a

- Credwch nad yw'r gwaith arfaethedig yn mynd yn ddigon pell.

Rydych yn berchen ar y tir lle y mae'r gwrych, neu'n meddiannu'r tir hwnnw; a

- Credwch na ddylid bod wedi cyhoeddi unrhyw hysbysiad;
- Credwch fod y gwaith sydd ei angen yn mynd yn rhy bell;
- Credwch nad yw'r Cyngor wedi rhoi digon o amser i chi gwblhau'r gwaith gofynnol.

Mae hyn yn diystyru apeliadau gan achwynwyr ar y sail y caniatawyd gormod o amser i gynnal y gwaith a nodwyd yn yr hysbysiad adfer. Mae apêl yn debygol o ymestyn yr amserlen ac felly mae'n annhebygol y bydd o unrhyw fantais i'r achwynydd.

Gallwch apelio yn erbyn penderfyniad Cyngor i <u>beidio â</u> chyhoeddi hysbysiad adfer os:-

Mai chi yw'r person a gwynodd i'r Cyngor ynglyn â'r gwrych;

- Credwch fod yr awdurdod lleol wedi gwneud penderfyniad anghywir wrth benderfynu nad yw'r gwrych yn effeithio'n andwyol arnoch;
- Credwch y dylai'r awdurdod lleol, ar ôl cytuno bod y gwrych yn peri problemau, fod wedi cyhoeddi hysbysiad adfer i leihau maint y gwrych.

Gallwch apelio yn erbyn penderfyniad Cyngor i dynnu hysbysiad adfer yn ôl os –

Mai chi yw'r person a achwynodd i'r Cyngor am y gwrych;

- **Nid oeddech wedi cytuno i'r hysbysiad gael ei dynnu yn ôl** ac **nid yw'r Cyngor wedi cyhoeddi hysbysiad adfer newydd;**
- **Ni chredwch fod unrhyw beth wedi newid, o ran y gwrych, ers cyhoeddi'r hysbysiad y tro cyntaf.**

Dim ond os caiff un o'r amodau canlynol eu bodloni y gallwch apelio yn erbyn penderfyniad Cyngor i hepgor neu lacio rhai o'r gofynion yn yr hysbysiad adfer :

- **Mae 28 Diwrnod wedi mynd heibio o ddyddiad penderfyniad y Cyngor i dynnu'r hysbysiad adfer yn ôl ac nid yw wedi cyhoeddi hysbysiad adfer**

newydd sy'n ymwneud â'r un gwrych

- **Nid yw pob parti wedi cytuno i dynnu'r hysbysiad adfer yn ôl, neu hepgor neu lacio ei ofynion, wedi'u cytuno gan yr holl bartïon h.y. yr achwynydd – neu eu holynwyr – a pherchennog a deiliad y tir – neu eu holynwyr – lle y mae'r gwrych.**

Yn ogystal, mae'n rhaid bod un neu fwy o'r seiliau canlynol yn berthnasol:

Chi yw'r person a gwynodd wrth y Cyngor am y gwrych ac nid oeddech wedi cytuno i'r newidiadau yn yr hysbysiad; a

- **Credwch nad oes unrhyw beth wedi newid o ran y gwrych ers cyhoeddi'r hysbysiad yn wreiddiol;**
- **Credwch nad yw'r gwaith i'r gwrych fel sy'n ofynnol yn yr hysbysiad diwygiedig yn mynd yn ddigon pell.**

Os ydych yn berchen ar y tir lle y mae'r gwrych, neu'n meddiannu'r tir hwnnw ac nid oeddech wedi cytuno ar y newidiadau i'r hysbysiad; a

- **Credwch nad oes unrhyw beth wedi newid o ran y gwrych ers cyhoeddi'r hysbysiad yn wreiddiol;**
- **Credwch fod y gwaith sydd ei angen ar y gwrych yn mynd yn rhy bell.**

Nid oes unrhyw **hawl i apelio yn erbyn penderfyniad Cyngor i dynnu hysbysiad adfer yn ôl neu i hepgor neu lacio rhai gofynion o dan yr amgylchiadau canlynol:**

Tra bod eich apêl yn cael ei phenderfynu caiff unrhyw benderfyniad neu hysbysiad adfer a gyhoeddir gan y Cyngor o ran y gwyn eu gohirio dros dro.

Nid oes unrhyw **hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Cyngor i wrthod cwyn am wrych uchel neu i wrthod cais i dynnu hysbysiad adfer yn ôl, neu ei ddiwygio. Os caiff eich cwyn neu eich cais ei wrthod yn y modd hwn a chredwch nad oedd y Cyngor wedi cymhwyso'r gyfraith yn gywir neu nad oedd wedi gwneud y penderfyniad yn y ffordd**

gywir, gallwch gyfeirio'r mater at swyddog cwynion y Cyngor ei hun neu gyfeirio'r mater at yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol. Fel arall, gallwch wneud cais i'r Uchel Lys i herio'r penderfyniad drwy adolygiad barnwrol (*gweler adran 14 o'r canllawiau hyn*).

Rhoddir manylion y bobl sy'n gallu gwneud apêl yn adran 71(2) a (3) y Ddeddf. Os nad ydych yn siwr pa un a oes gennych hawl i wneud apêl, dylech gysylltu â chynghorydd cyfreithiol neu'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth.

Os nad ydych yn deall y rhesymu y tu ôl i benderfyniad y Cyngor dylech ofyn iddynt am eglurhad cyn penderfynu apelio yn ei erbyn ai peidio. Dylech benderfynu cyn gynted â phosibl a ydych yn mynd i apelio. Mae'n rhaid inni dderbyn eich holl ddogfennau o fewn y terfyn amser, fel arall ni fyddwn yn cymryd unrhyw gamau gweithredu mewn perthynas â'ch apêl. Fel arfer, ni allwn dderbyn apêl hwyr. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y gwnawn hynny.

3. Sut a phryd y byddaf yn gwneud apêl?

Mae'n rhaid gwneud yr apêl ar ffurflen apêl safonol y gallwch ei chael o'n gwefan yn www.planning-inspectorate.gov.uk.htm

Neu os cysylltwch â ni yn y cyfeiriad a roddir isod gallwn anfon set o ffurflenni apêl atoch:

Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeilad y Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Pan fyddwch yn cyflwyno eich apêl i'r Arolygiaeth, mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen hefyd, ynghyd â'r dogfennau ategol i'r Cyngor yr ydych yn apelio yn erbyn ei benderfyniad. Dylech gadw copi ychwanegol o'r ffurflen apêl a dogfennau ategol er mwyn i chi allu cyfeirio atynt.

Terfynau amser ar gyfer anfon eich apêl

Mae'n rhaid i'r Arolygiaeth dderbyn y ffurflen apêl wedi'i chwblhau, ynghyd â dogfennau ategol o fewn 28 diwrnod o

- Ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad adfer;
- Y dyddiad y mae'r cyngor yn hysbysu'r partïon ei fod wedi penderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau gweithredu o ran y gwrych;

- Y dyddiad y mae'r cyngor yn hysbysu'r partïon ei fod wedi penderfynu tynnu hysbysiad adfer yn ôl neu i hepgor neu lacio ei ofynion.

Cofiwch am y terfyn amser o 28 diwrnod. Ni fyddwn yn gallu ymdrin â'ch apêl os byddwn yn ei derbyn ar ôl y dyddiad hwnnw

Rhestr wirio

Cyn i chi anfon y ffurflen apêl atom ni, dylech sicrhau eich bod wedi cynnwys

- Copi o benderfyniad y Cyngor a, lle y maent wedi cyhoeddi un, hysbysiad adfer;
- Disgrifiad digonol o'r safle sy'n destun yr apêl er mwyn ein galluogi i nodi maint yr ardal y gwneir apêl amdani;
- Eich enw, eich cyfeiriad a'ch cod post;
- Digon o wybodaeth i'r Arolygydd a'r Cyngor ddeall eich rhesymau dros wneud apêl.
- Pa un a ydych yn dymuno cael gwrandawiad ai peidio

Wrth gwblhau'r ffurflen apêl mae'n rhaid i chi esbonio'n llawn pam rydych yn anghytuno â hysbysiad adfer neu benderfyniad y Cyngor. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i chi fynd drwy eu rhesymau dros y penderfyniad, y gallwch ddod o hyd iddynt yn eu llythyr, ac esbonio pam rydych yn anghytuno. Nid yw dweud nad ydych yn derbyn rhesymau'r Cyngor yn ddigon. Mae hyn yn bwysig iawn oherwydd caiff eich ffurflen apêl ei thrin fel eich datganiad achos.

Dewis gweithdrefn

Mae apeliadau Gwrychoedd Uchel yr ymdrinnir â hwy gan yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru yn dilyn dau fath o weithdrefn:

- Cynrychioliadau ysgrifenedig;
- Gwrandawiad.

Dylech feddwl yn ofalus am y math mwyaf addas o weithdrefn ar gyfer eich apêl. Er bod y dyddiadau cau ar gyfer derbyn tystiolaeth yn debyg iawn, mae'r digwyddiadau apêl eu hunain yn wahanol iawn. Mae hyn yn golygu y bydd apêl sy'n cael ei phenderfynu drwy'r weithdrefn gwrandawiad fel arfer yn cynnwys mwy o amser a chost wrth ei pharatoi.

Bydd angen i chi fynegi eich dewis gweithdrefn ar y ffurflen apêl. Fodd bynnag, yr Arolygiaeth Gynllunio fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

Pan fyddwch yn penderfynu pa weithdrefn i'w defnyddio, dylech ystyried y pwyntiau canlynol:

- Bydd canlyniad yr apêl bob amser yn dibynnu ar ei rhinweddau
- Mae'r weithdrefn ysgrifenedig fel arfer yn gyflymach ac yn rhatach

Os bydd pawb yn gytûn, a bod yr apêl yn addas, bydd yr Arolygydd yn penderfynu arni ar sail gohebiaeth ysgrifenedig a gyfnewidir. Os na fyddwch chi, y Cyngor na ninnau yn cytuno ar y weithdrefn ysgrifenedig, byddwn yn trefnu gwrandawiad. **Pa weithdrefn bynnag y penderfynir arni, fel arfer bydd yr Arolygydd yn cynnal ymweliad â'r safle cyn penderfynu ar yr apêl.**

Er mwyn cael penderfyniad cyn gynted â phosibl, y weithdrefn ysgrifenedig sydd orau. Dim ond os credant ei bod yn gwbl angenrheidiol y bydd y rhan fwyaf o bobl yn gofyn am wrandawiad.

4. Beth fydd y gost?

Nid oes ffi ar gyfer gwneud apêl ond bydd yn rhaid i chi dalu eich costau eich hun. Mae hyn yn golygu os byddwch yn cyflogi cynghorydd proffesiynol (e.e. cyfreithiwr) i'ch helpu i wneud eich apêl, bydd yn rhaid i chi dalu am eu gwasanaethau. Er nad oes ffi ar gyfer cyflwyno apeliadau, maent yn ddrud i'w gweinyddu ac yn cymryd llawer o amser i bawb ac felly ni ddylid eu gwneud heb ystyriaeth fanwl.

5. Beth sy'n digwydd pan dderbynnir fy apêl?

Pan fyddwn yn derbyn eich apêl byddwn yn gwirio i sicrhau eich bod wedi cwblhau'r ffurflen yn gywir, eich bod wedi cyflenwi'r dogfennau sydd ei hangen i'n galluogi i fwrw ymlaen â'r apêl, a'i bod wedi'i derbyn o fewn y dyddiad cau statudol. Byddwn yn ysgrifennu atoch er mwyn cydnabod ein bod wedi derbyn eich apêl.

Pan fyddant yn derbyn eu copi o'r ffurflen apêl, mae'n ofynnol i'r Cyngor anfon enw a chyfeiriad yr holl bobl atom, heblaw amdanoch chi, sy'n bartïon mewn apêl. Ymhlith y partïon eraill hyn mae pawb sydd â hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Cyngor. Nid ydynt yn cynnwys pobl eraill a allai fod wedi gwneud sylwadau i'r Cyngor ar yr achos - megis cymdogion eraill neu gymdeithasau amwynderau lleol.

Yn ogystal, bydd yr awdurdod perthnasol yn dweud wrthym pa un a yw'n dymuno i'r apêl gael ei phenderfynu drwy gyfnewid cynrychioliadau ysgrifenedig neu ar ôl cynnal gwrandawiad.

Gelwir y wybodaeth hon a ddarperir gan yr awdurdod perthnasol yn 'wybodaeth ragarweiniol'. <u>Ni ellir dechrau'r amserlen ar gyfer yr apêl hyd nes y caiff y wybodaeth hon ei derbyn.</u>

6. Beth sy'n digwydd os bydd mwy nag un parti yn apelio yn erbyn yr un penderfyniad?

Os byddwn yn derbyn dau neu fwy o apeliadau yn erbyn hysbysiad adfer unigol byddwn yn cysylltu'r apeliadau er mwyn sicrhau bod yr un Arolygydd yn ymdrin â hwy oll. Os felly, gall yr Arolygydd ystyried y dystiolaeth a gafodd ei dwyn ymlaen a chyhoeddi penderfyniad ar y cyd neu, os yw'n briodol, gellir cyhoeddi penderfyniadau a hysbysiadau adfer unigol.

7. Y Weithdrefn Cynrychioliadau Ysgrifenedig

Dyddiad dechrau

Pan fyddwn wedi derbyn ffurflen apêl wedi'i chwblhau'n gywir, yr holl ddogfennau perthnasol, a'r wybodaeth ragarweiniol fel y nodir yn flaenorol byddwn yn eich hysbysu chi, a'r partïon am y dyddiad dechrau ffurfiol ar gyfer yr apêl. O'r dyddiad hwn y caiff yr holl gamau gweithdrefnol eraill eu cyfrifo.

Byddwn yn eich hysbysu chi a'r partïon o'r cyfeirnod a ddyrennir i'r apêl a'r weithdrefn i'w dilyn. Yn ogystal, darperir manylion cyswllt y swyddog a fydd yn ymdrin â'r achos i chi ac y dylid anfon yr oll ohebiaeth ato.

<u>Yr hyn y mae'n rhaid i CHI ei wneud:</u>

O fewn **2 wythnos** o'r dyddiad dechrau dylech dderbyn holiadur wedi'i gwblhau yn uniongyrchol o'r awdurdod perthnasol. Os nad ydych wedi derbyn copi, dylech gysylltu â'r awdurdod yn uniongyrchol a gofyn am gopi.

O fewn **6 wythnos** i'r dyddiad dechrau, mae'n rhaid i chi sicrhau ein bod yn derbyn:

- unrhyw gynrychioliadau pellach, sy'n ychwanegu at y ffurflen apêl wedi'i chwblhau a dogfennau cefndir yr ydych wedi'u cyflenwi eisoes.

Cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y dyddiad cau hwn byddwn yn anfon copi o'ch cynrychioliadau at y prif bartïon eraill, ac yn anfon copi o brif ddatganiadau eraill y prif bartïon ac unrhyw gynrychioliadau a dderbynnir gan bobl sydd â diddordeb.

O fewn **9 wythnos** i'r dyddiad dechrau, mae'n rhaid i chi sicrhau ein bod yn derbyn:

- unrhyw sylwadau terfynol y dymunwch eu gwneud ar y cynrychioliadau a gyflwynwyd gan y prif bartïon eraill mewn apêl, ac ar unrhyw gynrychioliadau pellach a anfonwyd gan bobl sydd â diddordeb.

Yr hyn sy'n rhaid i'r AWDURDOD PERTHNASOL ei wneud

O fewn **2 wythnos** i'r dyddiad dechrau, mae'n rhaid i'r awdurdod perthnasol:

- hysbysu pobl sydd â diddordeb am yr apêl (hynny yw, pawb – heblaw am y prif bartïon – a wnaeth gynrychioliadau i'r Cyngor am y penderfyniad sy'n destun yr apêl). Mae'n rhaid iddi gynnwys y canlynol:

  - ❖ enw'r apelydd a chyfeiriad y safle lle y mae'r gwrych;

  - ❖ manylion yr apêl a'r sail y'i gwnaed;

  - ❖ cadarnhau'r weithdrefn i'w defnyddio wrth benderfynu ar yr apêl (cynrychioliadau ysgrifenedig neu wrandawiad);

  - ❖ datganiad y caiff yr holl gynrychioliadau eu cyflwyno mewn cysylltiad â phenderfyniad gwreiddiol y Cyngor i'w anfon i'r Arolygiaeth Gynllunio ac anfon copïau at brif bartïon eraill i'r apêl;

  - ❖ datganiad y bydd y cyfryw gynrychioliadau yn cael eu hystyried wrth benderfynu'r apêl oni bai bod y person â'u gwnaeth yn hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio o fewn [6] wythnos i'r dyddiad dechrau eu bod yn dymuno eu tynnu yn ôl;

- ❖ gwahoddiad i gyflwyno cynrychioliadau ychwanegol i'w derbyn gan yr Arolygiaeth Gynllunio heb fod yn hwyrach na [6] wythnos ar ôl y dyddiad dechrau, a fydd yn anfon copïau at brif bartïon mewn apêl;

- ❖ dylai manylion cyswllt ar gyfer yr Arolygiaeth Gynllunio, yn cynnwys unrhyw gyfeirnod apêl gael eu dyfynnu mewn gohebiaeth;

- cyflwyno'r holiadur wedi'i gwblhau, ynghyd â phapurau cefndir perthnasol i'r apêl, i'w derbyn gennym o fewn 2 wythnos ac anfon copïau atoch chi a'r prif bartïon eraill;

- nodi pa un a ydynt yn bwriadu cyflwyno unrhyw ddatganiad pellach i esbonio'r rhesymau dros eu penderfyniad.

O fewn **6 wythnos i**'r dyddiad dechrau, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ein bod yn derbyn:

- unrhyw ddatganiad pellach, sy'n ychwanegu at yr holiadur a'r papurau cefndir. Byddwn yn anfon copïau atoch chi a'r prif bartïon eraill cyn gynted â phosibl.

O fewn **9 wythnos** i'r dyddiad dechrau, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ein bod yn derbyn:

- unrhyw sylwadau terfynol ar y cynrychioliadau a gyflwynwyd gennych a'r prif bartïon eraill ac ar unrhyw gynrychioliadau pellach a anfonwyd gan bobl â diddordeb.

Yr hyn y mae'n rhaid i <u>bawb arall</u> sy'n barti mewn apêl (heblaw am yr apelydd a'r Cyngor) ei wneud

O fewn **6 wythnos** i'r dyddiad dechrau, mae'n rhaid i brif bartïon eraill mewn apêl (hynny yw, pawb – heblaw amdanoch chi – sy'n achwynydd neu berchennog neu ddeiliad y tir lle y mae'r gwrych) sicrhau ein bod yn derbyn:

- unrhyw gynrychioliadau, sy'n ychwanegu at y dogfennau a gyflenwyd eisoes gennych chi a'r awdurdod. Byddwn yn anfon copi cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y dyddiad cau atoch chi a'r partïon eraill.

O fewn **9 wythnos** i'r dyddiad dechrau, mae'n rhaid i'r partïon sicrhau ein bod yn derbyn:

- unrhyw sylwadau terfynol ar y cynrychioliadau a gyflwynwyd gan y partïon eraill i'r apêl, ac ar unrhyw gynrychioliadau pellach a wnaed gan bobl â diddordeb.

Rôl pobl â diddordeb

Caiff unrhyw rai a wnaeth gynrychioliadau am y gwyn sy'n destun yr apêl eu hysbysu am yr apêl gan yr awdurdod perthnasol. Caiff eu sylwadau gwreiddiol eu hanfon ymlaen atom yn awtomatig gan yr awdurdod a byddwn yn eu hanfon ymlaen atoch chi a'r partïon eraill cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y dyddiad cau.

Dylent ein hysbysu os nad ydynt yn dymuno i'w sylwadau gwreiddiol gael eu hystyried wrth benderfynu ar yr apêl. Fel arall, gallant gyflwyno cynrychioliadau pellach am yr apêl i ni. Mae'n rhaid i ni dderbyn eu sylwadau o fewn **6 wythnos** i'r dyddiad dechrau.

Anfonwn gopi o'r cynrychioliadau pellach hyn atoch chi a'r partïon eraill a rhaid i ni dderbyn sylwadau o fewn **9 wythnos i**'r dyddiad dechrau.

YMWELIAD Â SAFLE

Ar ôl cyfnewid cynrychioliadau ysgrifenedig, byddwn yn trefnu i Arolygydd ymweld â safle'r gwrych. Yr Arolygydd, sy'n ddiduedd, fydd yn gyfrifol am benderfynu ar yr apêl.

Ni chaniateir trafodaeth o rinweddau'r apêl mewn ymweliad safle. Fodd bynnag, fel arfer bydd yn angenrheidiol i chi a'r partïon eraill fod yn bresennol er mwyn i'r Arolygydd allu cael mynediad i safle'r gwrych ac i'r eiddo yr effeithir arno. Er enghraifft, pan nad oes mynediad cefn/ochr efallai y bydd angen i'r arolygydd fynd drwy gartref rhywun arall er mwyn cyrraedd gwrych mewn gardd gefn.

Yn gyffredinol, o dan yr amgylchiadau hyn byddai'r holl bartïon mewn apêl yn bresennol gyda'r Arolygydd. Byddai hyn yn cynnwys yr achwynydd a pherchennog neu ddeiliad y tir lle y mae'r gwrych yn ogystal â'r awdurdod perthnasol.

Mae gan yr Arolygydd yr un hawliau i fynd ar y tir lle y mae'r gwrych â swyddog perthnasol yr awdurdod a ymdriniodd â'r gwyn wreiddiol. Yn ogystal, mae'r Arolygydd yn agored i'r un rhwymedigaethau o ran rhybudd ymlaen llaw (gweler Pennod 10**:** *'Mynediad i Dir'*).

Gan na chaniateir trafodaeth ar y safle, nid oes angen i'r awdurdod perthnasol gael ei gynrychioli gan y swyddog a ymdriniodd â'r penderfyniad gwreiddiol. Felly nid oes angen gohirio ymweliadau safle am nad yw'r unigolyn hwn ar gael.

8. Y Weithdrefn Gwrandawiad

Mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn trefnu bod Arolygydd yn cynnal gwrandawiad i'r apêl. Caiff unrhyw wrandawiadau eu cynnal yn unol â Rheoliadau Gwrychoedd neu Berthi Uchel (Apelau) (Cymru) 2004.

Fel arfer bydd yr awdurdod perthnasol yn trefnu lleoliad y gwrandawiad. Bydd pawb sy'n rhan o'r penderfyniad gwreiddiol yn cael y cyfle i gymryd rhan.

Mae'n bwysig bod yr Arolygydd yn cael ei hysbysu'n llawn am y materion a'r dadleuon perthnasol cyn i'r gwrandawiad agor er mwyn i'r Arolygydd allu arwain y drafodaeth yn gywir. Felly, mae'r gweithdrefnau yn ei gwneud yn ofynnol i'r prif bartïon gyflwyno datganiadau, dogfennau cefndir a sylwadau eraill o fewn y terfynau amser a nodwyd cyn y gwrandawiad.

Dyddiad dechrau

Pan fyddwn wedi derbyn ffurflen apêl wedi'i chwblhau'n gywir, yr holl ddogfennau perthnasol, a'r wybodaeth ragarweiniol fel y'i nodir yn flaenorol byddwn yn eich hysbysu chi a'r partïon am y dyddiad dechrau ffurfiol ar gyfer yr apêl. O'r dyddiad hwn y caiff yr holl gamau gweithdrefnol eraill eu cyfrifo.

Byddwn yn eich hysbysu chi a'r partïon am y cyfeirnod a ddyrennir i'r apêl a'r weithdrefn i'w dilyn. Yn ogystal, darperir manylion cyswllt y swyddog a fydd yn ymdrin â'r achos ac y dylid anfon yr holl ohebiaeth ato.

<u>Yr hyn y mae'n rhaid i CHI ei wneud:</u>

O fewn **2 wythnos** i'r dyddiad dechrau dylech dderbyn holiadur wedi'i gwblhau yn uniongyrchol o'r awdurdod perthnasol. Os nad ydych wedi derbyn copi, dylech gysylltu â'r awdurdod yn uniongyrchol a gofyn am gopi.

O fewn **6 wythnos** i'r dyddiad dechrau, mae'n rhaid i chi sicrhau ein bod yn derbyn:

- unrhyw gynrychioliadau pellach, sy'n ychwanegu at y ffurflen apêl wedi'i chwblhau a dogfennau cefndir yr ydych wedi'u cyflenwi eisoes.

Cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl y dyddiad cau hwn, byddwn yn anfon copi o'ch cynrychioliadau at y prif bartïon eraill, ac anfon copi o'r prif ddatganiadau eraill atoch chi, ynghyd ag unrhyw gynrychioliadau pellach a dderbynnir gan bobl sydd â diddordeb.

O fewn **9 wythnos** i'r dyddiad dechrau, mae'n rhaid i chi sicrhau ein bod yn derbyn:

- unrhyw sylwadau terfynol yr hoffech eu gwneud ar y cynrychioliadau a gyflwynir gan y prif bartïon eraill mewn apêl, ac ar unrhyw gynrychioliadau pellach a anfonir gan bobl sydd â diddordeb.

Yr hyn y mae'n rhaid i'r AWDURDOD PERTHNASOL ei wneud

O fewn **2 wythnos** i'r dyddiad dechrau, mae'n rhaid i'r awdurdod perthnasol:

- hysbysu pobl sydd â diddordeb am yr apêl (hynny yw, pawb – heblaw am y prif bartïon – a wnaeth gynrychioliadau i'r Cyngor am y penderfyniad sy'n destun yr apêl). Mae'n rhaid iddynt gynnwys y canlynol:

  - ❖ enw'r apelydd a chyfeiriad y safle lle y mae'r gwrych;
  - ❖ manylion yr apêl a'r sail y'i gwnaed arni;
  - ❖ cadarnhau'r weithdrefn i'w defnyddio i benderfynu ar yr apêl (cynrychioliadau ysgrifenedig neu wrandawiad);
  - ❖ caiff datganiad bod yr holl gynrychioliadau a gyflwynwyd mewn cysylltiad â phenderfyniad gwreiddiol y Cyngor ei anfon i'r Arolygiaeth Gynllunio a chaiff copïau eu hanfon at brif bartïon eraill yr apêl;
  - ❖ datganiad y caiff y cyfryw gynrychioliadau eu hystyried wrth benderfynu ar yr apêl oni bai bod y person a wnaeth y cynrychioliadau yn hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio o fewn [6] wythnos i'r dyddiad dechrau eu bod yn dymuno eu tynnu yn ôl;

- ❖ gwahoddiad i gyflwyno cynrychioliadau ychwanegol i'w derbyn gan yr Arolygiaeth Gynllunio heb fod yn hwyrach na [6] wythnos ar ôl y dyddiad dechrau, a fydd yn anfon copïau at y prif bartïon mewn apêl;

- ❖ manylion cyswllt ar gyfer yr Arolygiaeth Gynllunio, yn cynnwys unrhyw gyfeirnod apêl i'w ddyfynnu mewn gohebiaeth;

- cyflwyno'r holiadur wedi'i gwblhau, ynghyd â phapurau cefndir sy'n berthnasol i'r apêl, i'w derbyn gennym ni o fewn 2 wythnos ac anfon copïau atoch chi a'r prif bartïon eraill;

- nodi pa un a ydynt yn bwriadu cyflwyno unrhyw ddatganiad pellach i esbonio'r rhesymau dros eu penderfyniad.

O fewn **6 wythnos** i'r dyddiad dechrau, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ein bod yn derbyn:

- unrhyw ddatganiad pellach, sy'n ychwanegu at yr holiadur a'r papurau cefndir. Byddwn yn anfon copïau atoch chi a'r prif bartïon eraill cyn gynted ag sy'n ymarferol.

O fewn **9 wythnos** i'r dyddiad dechrau, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ein bod yn derbyn:

- unrhyw sylwadau terfynol yr hoffech eu gwneud ar y cynrychioliadau a gyflwynwyd gan y prif bartïon eraill mewn apêl, ac ar unrhyw gynrychioliadau pellach a anfonwyd gan bobl sydd â diddordeb.

Yr hyn y mae'n rhaid i <u>bawb arall</u> sy'n barti mewn apêl (ar wahân i'r apelydd a'r Cyngor) ei wneud

O fewn **6 wythnos** i'r dyddiad dechrau, mae'n rhaid i brif bartïon eraill mewn apêl (hynny yw, pawb - heblaw amdanoch chi - sy'n achwynydd neu berchennog neu feddiannwr y tir lle y mae'r gwrych) sicrhau ein bod yn derbyn:

- unrhyw gynrychioliadau, sy'n ychwanegu at y dogfennau a gyflenwyd eisoes gennych chi a'r awdurdod. Byddwn yn anfon copi atoch chi a'r partïon eraill sydd â diddordeb cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y dyddiad cau.

O fewn **9 wythnos** i'r dyddiad dechrau, mae'n rhaid i'r partïon sicrhau ein bod yn derbyn:

- unrhyw sylwadau terfynol ar y cynrychioliadau a gyflwynwyd gan y partïon eraill i'r apêl, ac ar unrhyw gynrychioliadau pellach a wnaed gan bobl â diddordeb.

Rôl pobl â diddordeb

Caiff unrhyw un a wnaeth gynrychioliadau am y gwyn sy'n destun yr apêl eu hysbysu am yr apêl gan yr awdurdod perthnasol. Caiff eu sylwadau gwreiddiol eu hanfon ymlaen yn awtomatig atom gan yr awdurdod a byddwn yn eu hanfon atoch chi a'r partïon eraill cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y dyddiad cau.

Dylent ein hysbysu os nad ydynt yn dymuno i'w sylwadau gwreiddiol gael eu hystyried wrth benderfynu'r apêl. Fel arall, gallant gyflwyno cynrychioliadau pellach am yr apêl atom. Mae'n rhaid i ni dderbyn eu sylwadau o fewn **6 wythnos** i'r dyddiad dechrau.

Byddwn yn anfon copi o'r cynrychioliadau pellach hyn atoch chi a'r partïon eraill ac mae'n rhaid i ni dderbyn sylwadau o fewn **9 wythnos** i'r dyddiad dechrau.

Beth fydd yn digwydd yn y Gwrandawiad

Byddwn yn rhoi o leiaf **4 wythnos** o rybudd i chi a'r partïon eraill o ran dyddiad, amser a lleoliad a bennir ar gyfer y gwrandawiad. Mae'r awdurdod perthnasol yn gyfrifol am hysbysu pobl â diddordeb am y trefniadau ar gyfer y gwrandawiad.

Mae gennych chi a'r partïon eraill yr hawl i fynychu'r gwrandawiad a chymryd rhan ynddo, naill ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd. Fodd bynnag, gall y gwrandawiad fynd rhagddo heb fod un neu fwy o'r prif bartïon yn bresennol. Yn ogystal, gall pobl eraill â diddordeb fod yn bresennol. Bydd eu cyfranogiad yn y drafodaeth yn ôl disgresiwn yr Arolygydd.

Caiff y weithdrefn i'w dilyn mewn gwrandawiad ei phennu gan yr Arolygydd a benodir. Fodd bynnag, fel arfer bydd yr Arolygydd yn dechrau drwy roi crynodeb o'i ddealltwriaeth/ei dealltwriaeth o'r achos gan amlinellu'r hyn a ystyrir ganddo fel y prif faterion.

Dylai trafodaeth lynu wrth y pwynt a dylai fynd rhagddo mewn ffordd drefnus. Gellir diystyru dadleuon sy'n ailadrodd ac, os bydd unrhyw un yn ymddwyn mewn ffordd sy'n tarfu ar y gwrandawiad, efallai y caiff y gwrandawiad ei ohirio am ychydig i roi cyfle i bawb ymdawelu.

Yn ystod y Gwrandawiad, efallai yr ymddengys i'r Arolygydd y gallai rhai materion gael eu datrys yn fwy boddhaol pe byddai'r gwrandawiad yn cael ei symud i'r safle, a bod trafodaethau yn parhau yno. Bydd pawb yn y gwrandawiad yn cael y cyfle i fynychu'r ymweliad safle.

Ymweliad safle

Bydd yr Arolygydd yn dymuno ymweld â safle'r gwrych ar ryw adeg yn ystod ei ystyriaethau ef/ei hystyriaethau hi, fel arfer yn syth ar ôl i'r gwrandawiad ddod i ben. Gall y drafodaeth barhau ar y safle yn ôl disgresiwn yr Arolygydd.

Ni ddylai un o'r partïon mewn apêl fod yng nghwmni'r Arolygydd ar unrhyw adeg yn ystod yr ymweliad heb fod y partïon eraill hefyd yn cael y cyfle i fod yn bresennol. Ymhlith y rhain mae'r achwynydd a pherchennog neu ddeiliad y tir lle y mae'r gwrych yn ogystal â'r awdurdod perthnasol.

11. Pwy gaiff ei hysbysu am y penderfyniad?

Byddwn yn hysbysu'r awdurdod perthnasol, yr achwynydd a pherchennog/deiliad y tir lle y mae'r gwrych am benderfyniad yr Arolygydd cyn gynted â phosibl. Yn ogystal, yn y dyfodol efallai y byddwn hefyd yn rhoi'r penderfyniad/hysbysiad adfer ar ein gwefan.

9. Y Penderfyniad

Efallai y bydd yr Arolygydd a benodwyd yn caniatáu neu'n gwrthod apêl, naill yn gyfan gwbl neu yn rhannol. Lle y penderfynir caniatáu'r apêl efallai y bydd yr Arolygydd yn dileu'r hysbysiad adfer gwreiddiol a gyhoeddwyd gan yr awdurdod perthnasol. Fel arall, efallai y bydd yr Arolygydd yn amrywio gofynion yr hysbysiad adfer ar ran yr awdurdod hwnnw. Yn ogystal, efallai y bydd yr Arolygydd yn cywiro unrhyw wall neu gamgymeriad yn yr hysbysiad gwreiddiol. Os bydd penderfyniad yr Arolygydd yn ymwneud ag hysbysiad adfer presennol efallai y bydd yr Arolygydd yn diwygio'r dyddiad gweithredol gwreiddiol (y dyddiad pan y daw'n weithredol).

Mae penderfyniad yr Arolygydd yn rhwymo'n gyfreithiol ar y tir dan sylw ac ar bwy bynnag sy'n berchen arno neu'n ei feddiannu. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig pwy bynnag sy'n berchen ar y tir neu'n ei feddiannu ar yr adeg y cyhoeddir y penderfyniad/hysbysiad, ond eu holynwyr hefyd. Os bydd yr Arolygydd yn diwygio hysbysiad adfer neu'n cyhoeddi un newydd, mae'r awdurdod yn parhau'n gyfrifol am sicrhau bod perchennog neu feddiannwr y tir lle y mae'r gwrych yn cydymffurfio â thelerau'r hysbysiad.

9. Beth fydd yn digwydd os penderfynaf dynnu fy apêl yn ôl?

Gallwch dynnu eich apêl yn ôl ar unrhyw adeg. Os byddwch yn penderfynu tynnu eich apêl yn ôl mae'n rhaid i chi gadarnhau hyn yn ysgrifenedig. Yna byddwn yn ysgrifennu at y partïon ac yn eu hysbysu na fyddwn yn cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach o ran yr apêl. O dan yr amgylchiadau hynny bydd y penderfyniad gwreiddiol a gyhoeddwyd gan yr awdurdod perthnasol yn sefyll a daw unrhyw hysbysiad adfer, neu unrhyw achos o hepgor neu lacio ei ofynion yn weithredol o'r dyddiad y caiff yr apêl ei thynnu yn ôl (neu unrhyw ddyddiad hwyrach a nodir yn yr hysbysiad).

10. Sut rwyf yn cwyno os na fyddaf yn fodlon ar y ffordd y mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi ymdrin â'm hapêl?

Os bydd gennych unrhyw gwynion am y penderfyniad neu'r ffordd yr ydym wedi ymdrin â'ch apêl, ysgrifennwch at:

Y swyddog cwynion

Yr Arolygiaeth Gynllunio **ffôn: 029-2082-3889**

Adeilad y Goron ffacs: 029-2082-5150

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: wales@planning-inspectorate.gsi.gov.uk

Byddwn yn ymchwilio i'ch cwyn a gallwch ddisgwyl ateb llawn o fewn tair wythnos. Fodd bynnag, ni allwn ailystyried apêl os byddwn wedi rhoi'r penderfyniad arni. Dim ond os heriwch y penderfyniad yn llwyddiannus yn yr Uchel Lys y byddwn yn ailystyried apêl.

14. Sut y gallaf herio'r penderfyniad?

Dim ond ar sail gyfreithiol yn yr Uchel Lys y gallwch herio penderfyniad apêl. Er mwyn bod yn llwyddiannus, byddai'n rhaid i chi ddangos bod:

- yr Arolygydd, neu'r Cynulliad wedi mynd tu hwnt i'w pwerau; neu
- nad oeddem wedi dilyn y gweithdrefnau cywir ac felly wedi gwneud niwed i'ch buddiannau.

Os byddwch yn llwyddiannus wrth herio, bydd yr Uchel Lys yn dymchwel penderfyniad gwreiddiol yr apêl ac yn dychwelyd yr achos atom, a byddwn yn edrych arno eto. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y caiff y penderfyniad gwreiddiol ei wyrdroi. Efallai y daw'r Arolygydd i'r un penderfyniad, ond am resymau gwahanol.

Os byddwch yn penderfynu herio penderfyniad yr apêl, mae'n rhaid i chi wneud cais i'r Uchel Lys o fewn chwe wythnos i ddyddiad y penderfyniad apêl. Pan fyddwn yn anfon y penderfyniad apêl atoch, byddwn yn anfon taflen atoch yn esbonio'ch hawl i'w herio.

14. Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru

Os credwch nad ydych wedi cael eich trin yn deg, gallwch ofyn i'r Ombwdsmon ymchwilio i hyn. Nid oes gan yr Ombwdsmon unrhyw bwer i gwestiynu rhinweddau eich apêl nac i newid y penderfyniad. Yr unig beth pwysig iddynt hwy yw'r ffordd yr ydym yn ymdrin ag apeliadau ac yn eu gweinyddu. Fel arfer, bydd yr Ombwdsmon yn disgwyl eich bod wedi gwneud cwyn i ni yn gyntaf cyn bod ef neu hi yn ymchwilio i'ch achos.

15. Y Cyngor Tribiwnlysoedd

Os credwch fod rhywbeth o'i le ar y weithdrefn sylfaenol a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer eich apêl, gallwn wneud cwyn i'r Cyngor Tribiwnlysoedd yn:

22 Kingsway
London
WC2B 6LE

Os credant ei bod yn ymwneud â hwy, bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â'ch cwyn. Fel yr Ombwdsmon, nid ydynt yn pryderu ynghylch rhinweddau eich apêl ac nid oes ganddynt unrhyw bwer i newid y penderfyniad.

16. Ombwdsmon Llywodraeth Leol

Os oes gennych gwyn am y ffordd yr ymdriniodd yr awdurdod perthnasol â'ch cais, gallwch, mewn rhai amgylchiadau, ofyn i'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol ymchwilio i hyn. Fodd bynnag, ni all Ombwdsmon Llywodraeth Leol ymchwilio i gwyn ynglyn â phenderfyniad am nad ydych chi a'r awdurdod perthnasol yn gytûn ac nid oes gan yr Ombwdsmon unrhyw bwer i newid y penderfyniad. Gallwch gael llyfryn yn esbonio sut i wneud cwyn drwy ysgrifennu i swyddfa'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol perthnasol yn:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 01656-641-150

Gwefan: www.ombudsman-wales.org.uk

17. Ynglyn â'r Arolygiaeth Gynllunio

Rydym yn rhan o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Diogelu Data a Phreifatrwydd yn yr Arolygiaeth Gynllunio

Cyflwyniad

O dan Ddeddf Diogelu Data 1998, mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i'ch hysbysu am wybodaeth a gasglwn amdanoch chi ac i ddiogelu'r cyfryw wybodaeth.

Wrth ystyried apêl, bydd yr Arolygydd (neu'r Cynulliad) yn derbyn amrywiaeth o wybodaeth bersonol. Daw'r wybodaeth hon o nifer o ffynonellau, yn cynnwys:

- y cais gwreiddiol, ynghyd ag unrhyw ddogfennau o gefnogaeth neu wrthwynebiad;
- y ffurflen apêl, ynghyd ag unrhyw ddogfennau pellach o gefnogaeth neu wrthwynebiad.

Yn unol â'r rhwymedigaethau statudol cyfredol, caiff y rhan fwyaf o'r ddogfennaeth a dderbynnir ei rhyddhau i'r cyhoedd. Serch hynny, mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn cydnabod pwysigrwydd preifatrwydd unigolion. Mae'r nodiadau hyn yn nodi pa wybodaeth a gesglir gennym a sut y caiff ei defnyddio.

Diogelu Data

Rydym wedi rhoi gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 wrth ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol.

Yn benodol:

- ni fyddwn ond yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol at ddibenion ymdrin â'r apêl gynllunio berthnasol a'i hystyried;
- ni fyddwn ond yn cadw eich gwybodaeth bersonol cyhyd ag sy'n rhesymol angenrheidiol. Ar gyfer apeliadau wedi'u cwblhau, 12 mis fydd hyn fel arfer, er y byddwn yn cadw copi o benderfyniad yr Arolygydd am gyfnod amhenodol. Gallai'r wybodaeth bersonol ffurfio rhan o benderfyniad yr Arolygydd.

Pwy sy'n cael gweld eich gwybodaeth bersonol?

Bydd papurau'r apêl ar agor i'w harchwilio yn swyddfeydd y cyngor a gall unrhyw un eu gweld.

Mae gan unrhyw berson sydd â hawl I gael ei hysbysu am y penderfyniad mewn achos ymchwiliad hawl gyfreithiol i wneud cais i archwilio'r dogfennau, y ffotograffau a'r cynlluniau rhestredig o fewn 6 wythnos i ddyddiad y penderfyniad. Fel arfer, ni chaiff ceisiadau eraill i weld dogfennau'r apêl eu gwrthod.

Yn ogystal, pan fydd y Porth Cynllunio electronig ar gael, caiff mwyafrif y wybodaeth bersonol ei rhoi ar y wefan Gwaith Achos [www.planningportal.gov.uk] a gall unrhyw drydydd parti ledled y byd gael mynediad iddi, yn cynnwys unigolion neu sefydliadau nad oes ganddynt unrhyw ddiddordeb uniongyrchol yn yr apêl benodol.

Pa wybodaeth a gesglir gennym?

Wrth ymdrin ag apêl gallem dderbyn gwybodaeth bersonol amdanoch chi gan nifer o bartïon, yn cynnwys:

- awdurdodau cynllunio lleol;
- chi eich hun;
- partïon eraill sydd â diddordeb yn yr apêl.
- Mae'r wybodaeth a dderbynnir gennym yn amrywiol ond yn aml mae'n cynnwys:
- manylion eich enw, eich cyfeiriad a'ch swydd;
- gwybodaeth am eich iechyd;
- gwybodaeth sy'n ymwneud â'ch safbwyntiau neu eich bwriadau o ran cais/apêl gynllunio.

Pa gamau gweithredu y dylech eu cymryd?

- Dim ond os ydych yn fodlon iddi fod ar gael i'r cyhoedd y dylech ddarparu gwybodaeth bersonol.
- Peidiwch â chynnwys gwybodaeth bersonol am drydydd parti arall (yn cynnwys aelodau'r teulu) oni bai eich bod wedi dweud wrth yr unigolyn dan sylw a'u bod yn fodlon i chi anfon y wybodaeth honno.
- Dywedwch wrthym cyn gynted â phosibl os bydd unrhyw ran o'r wybodaeth bersonol a ddarparwyd gennych yn newid.

Y Rheolydd Data

Y rheolydd data (y sefydliad sy'n gyfrifol am ymdrin â gwybodaeth bersonol) yw'r Prif Ysgrifennydd Gwladol yn Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog.

Eich Hawl i Weld Data Personol

Mae'n rhaid i ni ddarparu copi darllenadwy o'r data personol a gedwir gennym amdanoch chi o fewn 40 diwrnod. Codir ffi statudol o £10. Bydd angen tystiolaeth neu brawf adnabod. Mae er budd i ni ac i chi i ddal data cywir. Os yw'r data a ddelir gennym yn anghywir mewn unrhyw ffordd, yna, heb ffi a lle y bo'n briodol, gallwch sicrhau bod y data yn cael ei:

- ddileu,

- unioni neu ei newid,
- cwblhau.

Ar gyfer unrhyw ymholiad neu bryder am ein polisi preifatrwydd, neu i wneud cais am gael gweld eich data personol, cysylltwch â'n Rheolydd Data:

Alastair Grant
Data Manager
The Planning Inspectorate
Room 3/16 Eagle Wing
Temple Quay House
2, The Square,Temple Quay
Bristol BS1 6PN

Ffôn: 0117 372 8922
E-bost: alastair.grant@planning-inspectorate.gsi.gov.uk

Mae gwybodaeth gysylltiedig am ein polisi preifatrwydd ar gael ar ein gwefan.

Anghydfod

Ein nod yw sicrhau ein bod yn datrys unrhyw faterion yn foddhaol. Fodd bynnag, os nad ydych yn fodlon ar ein hymateb gallwch gysylltu â:

The Information Commissioner
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Switsfwrdd: 01625 545 700
Ffacs: 01625 524 510
DX: 20819 Wilmslow

Gwefan: http://www.dataprotection.gov.uk/
E-bost: mail@dataprotection.gov.uk

Ar gyfer apeliadau ac ymholiadau yn Lloegr

The Planning Inspectorate
Temple Quay House
2 The Square
Temple Quay
Bristol
BS1 6PN

Llinell Gymorth: 0117 372 6372

Cymorth Cynllunio Cymru

Os hoffech gael help i gymryd rhan mewn apêl gynllunio, gallwch gysylltu â Chymorth Cynllunio Cymru. Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn darparu gwasanaeth cynghori annibynnol am ddim ar faterion cynllunio gwlad a thref i bobl a grwpiau mewn amgylchiadau priodol ac efallai y byddant yn gallu eich helpu. Ysgrifennwch i:

Cymorth Cynllunio Cymru
The Maltings
East Tyndall Street
Caerdydd
CF24 5EA

Ffôn 029 2048 5765